sir ddinbych denbighshire
Cyngor
County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Chwefror 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Julia Hughes Cadeirydd y Pwyllgor Safonau,** Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2024 |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Dyma yr Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn ac mae'n cynnwys y flwyddyn galendr o fis Ionawr i fis Rhagfyr 2024. Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn yn flynyddol, er mwyn hysbysu'r Aelodau o dueddiadau, materion o ran cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn gyffredinol ar draws y sir a gwaith y Pwyllgor o ran codi safonau ymddygiad ar lefel sirol ac ar lefel Cyngor Tref, Dinas a Chymuned.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor hwn y dylid cyflwyno adroddiad blynyddol ar waith y pwyllgor, a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau, i holl Aelodau'r Cyngor fel rhan o ymgyrch y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol ac i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau. Mae'r rhwymedigaeth i ddarparu adroddiad bellach wedi'i nodi mewn deddfwriaeth a chaiff copi o'r adroddiad hwnnw ei gyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

# 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1. Rôl a strwythur y Pwyllgor Safonau

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Prif rôl y Pwyllgor Safonau yw monitro cydymffurfiad â Chod Ymddygiad yr Aelodau. Mae pob Aelod yn ymwybodol bod eu cod wedi'i seilio ar 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan (a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r rhain). Yng Nghymru ceir deg egwyddor, sef: Anhunanoldeb, Gonestrwydd, Uniondeb a Phriodoldeb, Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith, Stiwardiaeth, Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau, Cydraddoldeb a Pharch, Bod yn Agored, Atebolrwydd ac Arweinyddiaeth.

Mae rheoliadau pwyllgorau safonau yn nodi na fydd maint y pwyllgor yn llai na 5 nac yn fwy na 9 aelod.

Yn Sir Ddinbych, mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys y mathau canlynol o Aelodau: 2 Gynghorydd Sir, 4 Aelod Annibynnol (cyfetholedig), ac 1 Aelod o Gyngor Cymuned (nad yw'n Aelod sy'n gwisgo dwy het), ac felly mae gennym ni 7 aelod. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hefyd yn egluro mai dim ond pan fydd o leiaf hanner yr Aelodau hynny sy'n bresennol yn aelodau lleyg annibynnol y bydd cworwm i'r Pwyllgor.

Felly, nid yw'r rhan fwyaf o'r Aelodau yn cael eu hethol ond, yn hytrach, yn cael eu recriwtio o aelodau o'r cyhoedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Mae paragraff 15 Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 yn datgan bod yn rhaid i bob Cyngor yng Nghymru sefydlu panel recriwtio sy'n cynnwys dim mwy na 5 aelod. Mae'n rhaid i un ohonynt fod yn aelod o'r cyhoedd nad yw'n aelod etholedig na lleyg o'r Cyngor; hynny yw, yn gwbl annibynnol o'r Cyngor, ac mae'n rhaid i un o aelodau'r panel fod yn aelod o gyngor cymuned yn ardal yr awdurdod lleol dan sylw. O ran y tair sedd sydd arall, wrth sefydlu'r panel recriwtio penderfynodd Cyngor Sir Ddinbych neilltuo'r rheiny i'r tri phrif grŵp gwleidyddol.

Cynhaliwyd adolygiad o aelodaeth y panel recriwtio sy'n penodi aelodau lleyg (aelodau annibynnol heb eu hethol) i Bwyllgor Safonau'r Cyngor ac ym mis Chwefror 2024 penderfynodd y Cyngor Llawn leihau nifer yr aelodau etholedig ar y panel recriwtio o 3 i 2 aelod. Bydd yr aelodau hyn yn aelodau etholedig sy'n rhan o'r Pwyllgor Safonau. Caiff y drydedd sedd ei chymryd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae’r Pwyllgor wedi cyfarfod ar bedwar achlysur. Mae’r tabl yn Atodiad 1 yn crynhoi’r eitemau a drafodwyd.

### 4.2. Dyletswydd Arweinwyr Grwpiau

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grŵp ac i gydweithredu â’r Pwyllgor Safonau wrth ymarfer swyddogaethau’r Pwyllgor Safonau.

Mae’r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau ysgrifenedig gan Arweinwyr Grwpiau mewn perthynas â chamau gweithredu sydd wedi’u cymryd ganddynt i gydymffurfio â’u dyletswydd ac wedi cwrdd â phob Arweinydd Grŵp yn unigol i drafod cynnwys eu hadroddiadau ac i ganfod pa gefnogaeth neu hyfforddiant ychwanegol a ellir ei ddarparu i Arweinwyr Grwpiau i’w cynorthwyo. Mae bob Arweinydd Grŵp wedi dangos i’r Pwyllgor eu bod yn ymrwymedig i hyrwyddo safonau da o ymddygiad drwy barhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth i Aelodau newydd, darparu cyfleoedd hyfforddi ac annog Aelodau i gwblhau hyfforddiant yn unol â gweithdrefnau hyfforddi Aelodau.

Mae Arweinwyr Grwpiau hefyd wedi dangos sut maent yn rhannu arfer da a dysg gyda’u grwp, fel trafod materion sy’n ymwneud â safonau ac ymddygiad yn ystod cyfarfodydd Arweinwyr Grwpiau a chynnwys hyn ar raglenni cyfarfodydd grŵp.

Mae pob Arweinydd Grŵp wedi dangos parodrwydd i weithio gyda’r Swyddog Monitro a gyda’i gilydd i gynnal y safonau hynny drwy fynd i’r afael ag unrhyw fater mewn modd adeiladol.

Mae’r Pwyllgor yn fodlon bod Arweinwyr Grwpiau wedi cyflawni eu dyletswydd yn hyn o beth.

### 4.3. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Pan fydd y Pwyllgor yn derbyn atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ei ymchwiliad i gŵyn, bydd yn eistedd yn lled-farnwrol tra mae’n gwrando ar y mater. Mae ganddynt bwerau i wahardd Aelod o’u swyddi am hyd at 6 mis, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ni all yr Aelod weithredu yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Etholedig na derbyn unrhyw gyflog

sy’n ddyledus iddo fel Aelod. Mae gan y Pwyllgor y disgresiwn i gyflwyno sancsiynau llai fel gwahardd aelod yn rhannol o’i ddyletswyddau neu ‘gerydd cyhoeddus’ a phennu amodau eraill fel cwblhau hyfforddiant. Yn ystod y cyfnod o fis Ionawr 2024 tan fis Rhagfyr 2024, mae’r Swyddog Monitro wedi cael gwybod am 5 cwyn sydd wedi’u gwneud i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn Aelodau o’r Cyngor Sir a 7 cwyn yn erbyn aelodau o Gyngor Tref, Cymuned a Dinas. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi penderfynu peidio ag ymchwilio i 10 cwyn, ac mae 2 gŵyn yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd.

**4.4. Cyfarfodydd Penderfynu**

Yn ystod y flwyddyn hon ni chynhaliwyd cyfarfod mewn perthynas â phenderfynu ynghylch a fu achos o dorri’r Cod Ymddygiad ar lefel sirol neu gymuned.

**4.5. Hyfforddiant Cod Ymddygiad**

Mae rhaglen flynyddol o Hyfforddiant Cod Ymddygiad wedi’i sefydlu ar gyfer Cynghorau Tref, Cymuned a Dinas, gyda sesiynau’n cael eu cynnal ar-lein yn fisol. Os oes angen, bydd sesiynau pwrpasol yn cael eu cynnal ar gyfer cynghorau unigol.

**4.6. Eitemau Sefydlog**

Yr eitemau sefydlog ar raglen y Pwyllgor yn 2024 oedd:

(a) Adroddiadau gan Aelodau’r Pwyllgor Safonau ar eu presenoldeb a'u harsylwadau yng nghyfarfodydd Pwyllgor a’r Cyngor boed ar lefel sir neu Gyngor Tref, Dinas a Chymuned. Mae gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych ymagwedd ragweithiol tuag at godi safonau ac ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad. Mae Aelodau’r Pwyllgor yn mynychu i arsylwi ymddygiad ac effeithiolrwydd cyffredinol y cyfarfodydd; yna byddent yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor, sydd yna’n gwneud argymhellion o ran unrhyw anghenion hyfforddi neu batrymau ymddygiad mewn cymunedau penodol neu ar lefel sirol. Nodir hygyrchedd cyfarfodydd hefyd.

Fel y pwysleisiwyd y llynedd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i'w gwneud yn glir bod eu hymagwedd o ran mynychu yn bersonol mewn cyfarfodydd yn un o

safbwynt cefnogaeth a chydweithio; er mwyn targedu adnoddau i wella safonau a hyder y cyhoedd yn y gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud ar lefel gymunedol, ar sail wirfoddol; ac nid o unrhyw ongl gorfodaeth neu gritigol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwerth mae cynghorau o’r fath, a'u haelodau, yn ychwanegu at gymunedau lleol. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y Cod yno i roi hyder i’r cyhoedd, ond hefyd i amddiffyn aelodau ac mae unrhyw ymdrechion i godi’r ymwybyddiaeth hon ar gyfer yr holl aelodau sy'n gwasanaethu yn thema allweddol y maent yn ei chymeradwyo'n barhaus.

(b) Trosolwg o Gwynion yn erbyn Aelodau gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn sesiwn gaeedig ac mae aelodau yn cael manylion cyfyngedig mewn perthynas â’r gŵyn, ond darperir digon o fanylion i alluogi aelodau i ystyried a ellir argymell hyfforddiant neu gamau eraill i’r Cyngor Sir, Gynghorau Tref, Dinas a Chymuned penodol sy'n cael problemau neu gynnydd mewn cwynion.

(c) Rhaglen Waith: Mae hyn yn cyd-fynd â dull pwyllgorau eraill y cyngor ac mae’n annog ymagwedd fwy strategol tuag at rôl y Pwyllgor fel un rhagweithiol, nid adweithiol yn unig i gwynion.

(d) Ceisiadau am oddefebau gan Gynghorau Tref, Cymuned neu Ddinas. Cafwyd dau gais am oddefeb yn ystod y cyfnod o fis Ionawr 2024 tan fis Rhagfyr 2024, un gan Gyngor Cymuned Llandyrnog ac un gan Gyngor Cymuned Gwyddelwern. Mae’r diffyg ceisiadau am oddefebau wedi bod yn destun pryder i’r Pwyllgor ers peth amser. Mae’r Swyddog Monitro wedi rhoi sicrwydd bod hyn yn cael sylw yn ystod yr hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Roedd y Pwyllgor yn falch o weld bod hyn wedi arwain at geisiadau.

(e) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Ein Canfyddiadau a Phenderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru.Caiff y rhain eu rhannu ymhob Pwyllgor er mwyn cael darlun cenedlaethol o’r cwynion a lefel y sancsiynau sydd wedi’u cyflwyno.

**4.7. Fforwm Safonau Cenedlaethol**

Yn ystod y flwyddyn cafwyd dau gyfarfod o’r Fforwm Safonau Cenedlaethol ar 29 Ionawr 2024 a 24 Mehefin 2024.

Caiff rhaglenni'r fforwm eu llunio yn defnyddio testunau a awgrymwyd gan bwyllgorau safonau a swyddogion monitro gan ystyried materion a meysydd sy'n dod i'r amlwg.

Roedd testunau 2024 yn cynnwys:

- Y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad Richard Penn
- Adborth a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig
- Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol
- Cyflwyniad gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru, Claire Sharp a chyflwyniad i'r llywydd newydd, Meleri Tudor
- Canllawiau sancsiynau
- Cyflwyniad gan Un Llais Cymru
- Adolygiad o'r Gweithdrefnau Datrys yn Lleol
- Adnoddau ar gyfer Pwyllgorau Safonau
- Hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion
- Dyletswydd Arweinwyr Grwpiau

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar:

23/04/24 Cadeirio Gwrandawiadau Safonau

12/02/24 Cadeirio cyfarfodydd

### 4.8. Rôl y Dirprwy Swyddog Monitro

Mae trefniadau rôl y Dirprwy Swyddog Monitro wedi'u hadolygu ac i'r dyfodol bydd y rôl yn cael ei rhannu rhwng tri swyddog. Bydd rôl y Dirprwy Swyddog Monitro (Ymddygiad) yn cael ei chyflawni gan Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl (Catrin Roberts). Bydd rôl y Dirprwy Swyddog Monitro (Llywodraethu a Chyfreithlondeb) yn cael ei chyflawni gan Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (Sally Henderson) ac Arweinydd Tîm y Gwasanaethau Cyfreithiol (Clare Lord).

Bydd y Swyddog Monitro a'r Dirprwyon yn cydweithio fel tîm mewn perthynas â phob agwedd ar y rôl fonitro.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae Pwyllgor Safonau cwbl weithredol a chynrychioliadol ac sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn helpu i ategu'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau democrataidd.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn ac nid oes unrhyw oblygiadau ar gyfer y gwasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid yw'n ofynnol asesu'r effaith ar les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni ystyrir bod angen cynnal ymgynghoriadau eraill; mae'r adroddiad hwn wedi bod yn destun ymgynghoriad â'r Pwyllgor Safonau ac maent yn fodlon bod yr adroddiad yn adlewyrchu safbwynt y Pwyllgor a'r Cadeirydd o ran cadw at God Ymddygiad Aelodau Sir Ddinbych a'r sylwadau o ran uniondeb a moeseg yn gyffredinol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risg wedi'i nodi.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygiad) 2006.